Geoffrey Taylor Bull 1921–1999

Cenhadwr yn Tibet

Ganwyd Geoffrey Taylor Bull i deulu o efengylwyr ceidwadol a phan oedd yn 15 oed fe'i bedyddiwyd ac fe'i derbyniwyd i gymdeithas o Gristnogion a elwid yn New Testament Simplicity o draddodiad y Brodyr Plymouth. Ei fwriad cyntaf oedd mynd i'r byd ariannol ond ym 1941 dechreuodd ymdeimlo â galwad i'r genhadaeth yng Nghanolbarth Asia. Efallai iddo gael ei ysbrydoli gan George W. Hunter a fu'n genhadwr am flynyddoedd maith yn China. Ym 1947 ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd neilltuodd y Brodyr ef i fynd yn genhadwr llawn amser i Ganolbarth Asia. Aeth ef a George Patterson i China gan aros am gyfnod gyda chenhadon y China Inland Mission cyn symud yn uwch i fyny'r Afon Yangtse i Nanchang.

Er syndod iddynt sylweddolodd y ddau fod llawer o'r cenhadon yn parhau i ddefnyddio'r dull 'compound' lle roeddent yn aros mewn un man gan geisio sefydlu eglwys yno heb fentro ymhellach. Roedd Bull a Patterson yn awyddus i geisio gweithredu yn fwy Beiblaidd a dilyn y dull apostolaidd o deithio llawer mwy gan sefydlu eglwys ac yna symud ymlaen.

Aethant i Cangting gan aros am ddeunaw mis yn dysgu'r iaith ac yn gwneud cysylltiadau pwysig gyda Thibetiaid oedd yn byw yn yr ardal. Daethant i gysylltiad â dau frawd Pangda oedd o deuluoedd dylanwadol ac fe'u gwahoddwyd i'w pentref, sef Po ar lan afon Yangtse. Parhaodd Bull i ddysgu'r iaith Dibetaidd a dechreuodd bregethu. Erbyn 1950 roedd y Fyddin Goch yn agosáu ond er y peryglon penderfynodd Bull aros ac er mwyn hyrwyddo'r Efengyl agorodd fferyllfa. Gwerthfawrogwyd y gwasanaeth yn fawr a thrwy ei gyflenwadau o foddion a'i wybodaeth feddygol gallai drin anafiadau bach, anhwylderau a thrafferthion llygaid. Roedd llawer o'r dynion yn dioddef o afiechydon rhywiol oherwydd eu harfer o rannu eu merched. Ond roedd Bull yn anhapus pan glywodd fod ei gleifion yn mynd hefyd at y Lama er mwyn iddo alw ar yr ysbrydion i'w hiacháu. Esboniodd iddynt na fyddai Duw yn gweithio trwy

gythreuliaid. Adeiladodd ystafell i addoli ynddi fel estyniad i'w gaban pren. Pan alwodd dau Efengylydd Tsieneaidd heibio cafodd gyfle i gynnal ei oedfa gyntaf o fawl yno. Dychwelodd wedyn i Batang, gorllewin China, i atgyfnerthu eglwys fechan oedd yno. Rhoddodd wybod i'r awdurdodau Comiwnyddol ei fod yno a gadawyd llonydd iddo am y tro.

Ym 1950, wrth i'r Fyddin Goch ddynesu ffodd i Po. Cyn hir cyraeddasant yno, ond ni chafodd Bull unrhyw drafferth. Ym mis Gorffennaf symudodd y fyddin yn ei blaen a phenderfynodd yntau symud. Aeth i Markham Gartok, caer 14,000 o droedfeddi uwchlaw lefel y môr. Arhosodd yno am ganiatâd i fynd ymhellach i mewn i Tibet. Tra oedd yno daeth yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad cynyddol oedd i Gristnogaeth gan yr arweinwyr Bwdïaidd a Chomiwnyddol. Daeth o dan ymosodiad ysbrydol oedd yn tanseilio ei ffydd. Cafodd ei arestio ac fe'i cadwyd yn gaeth cyn iddynt ei hebrwng yn ôl i Batang i gael ei groesholi. Fe'i cyhuddwyd o fod yn Imperialydd Prydeinig a bygythiwyd ei saethu yn y fan a'r lle. Bu yn y carchar yno am 45 diwrnod cyn cael ei symud i Chungking. Yno cafodd ei groesholi gan swyddog o'r fyddin am ei fywyd a'i waith, y bobl yr oedd wedi eu cyfarfod, ei ddyddiaduron, llythyrau a phapurau. Am bum mis buont yn ceisio ei gyflyru i feddwl yn wahanol. Ym 1951 fe'i symudwyd i garchar arall. Yno rhoddwyd iddo lenyddiaeth Farcsaidd er mwyn ceisio newid ei feddwl. Am dros flwyddyn fe'i cadwyd ar ei ben ei hun ac ar wahân i garcharorion eraill, ond yn sydyn newidiodd yr awdurdodau eu dull a rhoddwyd carcharorion eraill yn ei gell.

Penodwyd arweinydd er mwyn arwain trafodaeth ddyddiol i droi eu meddyliau tuag at gomiwnyddiaeth. Cyhuddwyd Bull o ddefnyddio Cristnogaeth fel cyfrwng i guddio ei wir waith fel ysbïwr rhyngwladol. Roedd yr holl ymosodiadau hyn yn effeithio ar ei feddwl ac erbyn 1953 roedd wedi blino yn llwyr ac yn cael trafferth i fyfyrio ar yr ysgrythur ac i weddïo. Sylweddolodd fodd bynnag fod miloedd yn gweddïo trosto. Ym mis Rhagfyr 1953 fe'i taflwyd allan o China ac fe'i rhybuddiwyd nad oedd i ddychwelyd yno byth eto. Wrth iddo edrych yn ôl ar ei dair blynedd yn y carchar sylweddolodd fod Duw wedi ei gynnal trwy'r cwbl.